# Disgrifiad Swydd

**SWYDD:** **Cynorthwyydd Addysgu: Awtistiaeth ac Anawsterau Niwroddatblygiadol**

**YSTOD CYFLOG:** **GO2 (Pt 4-5)**

**DEILIAD SWYDD:**

**YN ATEBOL I:** **Athrawon y Ganolfan Adnoddau**

**PWRPAS Y SWYDD**

- Dan arweiniad athrawon y Ganolfan Adnoddau, darparu cefnogaeth i fyfyrwyr yn y dosbarth, neu mewn grwpiau bach, gan ganolbwyntio'n benodol ar sgiliau llythrennedd a rhifedd, sgiliau cyfathrebu cymdeithasol ac anawsterau ymddygiadol.

**PRIF DDYLETSWYDDAU**

**Cefnogi Myfyrwyr**

- Defnyddio sgiliau, hyfforddiant a phrofiad i gefnogi myfyrwyr.
- Sefydlu perthnasau gweithio pwrpasol gyda myfyrwyr a chreu disgwyliadau uchel.
- Hyrwyddo cynhwysiad a derbyniad pob disgybl o fewn y dosbarth.
- Cefnogi myfyrwyr yn gyson wrth gydnabod ac ymateb i'w hanghenion unigol.
- Annog myfyrwyr i ryngweithio a chydweithio ag eraill.
- Darparu adborth effeithiol i fyfyrwyr mewn perthynas â rhaglenni ac adnabod a gwobrwyo cyflawniad, gan gynnwys ymddygiad a phresenoldeb.
- Cofrestru a chofnodi presenoldeb myfyrwyr mewn gwersi.
- Cyfarwyddo myfyrwyr ynglŷn â'r gwaith a dderbyniwyd gan eu hathro.
- Rhoi'r adnoddau angenrheidiol i fyfyrwyr ar gyfer eu dysgu.
- Sicrhau bod myfyrwyr yn dod i mewn i ddosbarthiadau yn drefnus ac yn gadael yn yr un modd.
- I greu amgylchedd llonydd a phwrpasol lle gall myfyrwyr gwblhau gwaith a osodwyd gan yr athro dosbarth.
- I ddilyn systemau a gweithdrefnau'r ysgol mewn perthynas â rheoli ymddygiad.
- I gasglu unrhyw waith a gwblhawyd ar ôl y wers a'i ddychwelyd i'r athro priodol.
- Cofnodi ac adrodd ar gynnydd mewn gwersi i'r athro Canolfan Adnoddau a'r athro dosbarth.
- Cyfrannu at ddatblygiad proffiliau disgyblion ac adolygiadau o dan gyfarwyddyd yr athro canolfan adnoddau.

**Cefnogi Athrawon**

- Creu a chynnal amgylchedd gwaith pwrpasol, trefnus a chynhyrchiol
- Paratoi a defnyddio offer/adnoddau/deunyddiau yn amserol a chywir yn ôl gofyniad staff/cwricwlwm/cynlluniau gwers.
- Cynnal cofnodion yn ôl y gofyn.
- Gweithredu a strwythuro gweithgareddau dysgu/rhaglenni addysgu.
- Sicrhau iechyd a diogelwch ac ymddygiad da myfyrwyr bob amser.
- Darparu cefnogaeth glerigol/weinyddol, er enghraifft teipio, prosesu geiriau, cadw cofnodion, llungopïo, argraffu ayb.

# Penodol i'r Unigolyn

| Ffactor | Gofynion | Tystiolaeth | Pwysigrwydd<br>H- Hanfodol<br>M-Manteisiol |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth & Sgiliau** | NVQ2 neu gymhwyster cyfwerth mewn digyblaeth berthnasol. | FfG/Gw | H |
| | Gwybodaeth am becynnau meddalwedd Microsoft, a phrofiad o ddefnyddio pecynnau prosesu geiriau a thaenlenni | FfG/C/G | M |
| | Gallu i weithio dan bwysau er mwyn cyflawni'r hyn a ofynnir a chadw at derfynau amser. | FfG/C | H |
| | Sgiliau trefnu rhagorol, yn cynnwys y gallu i reoli eich baich gwaith eich hun a chynllunio gweithgareddau. | FfG/C | H |
| | Sgiliau cyfathrebu da yn Saesneg, yn ysgrifenedig ac ar lafar. | FfG/C | H |
| | Cymraeg rhugl | FfG/C | M |
| | Gwybodaeth a phrofiad o ddefnyddio strategaethau cefnogi ymddygiad cadarnhaol i reoli a newid ymddygiad heriol. | FfG/C | D |
| | Gwybodaeth am hawliau a buddiannau plant a phobl ifanc ac ymrwymiad iddynt. | FfG/C | D |
| **Creadigrwydd & Dyfeisgarwch** | Cymhelliant personol rhagorol a brwdfrydedd dros gwblhau tasgau a aseiniwyd. | FfG/C | H |
| | Gallu i ymchwilio a threfnu gwybodaeth er mwyn ei rhoi mewn dogfennau ac adroddiadau. | FfG/C/G | M |
| | Gallu i weithio'n annibynnol a datrys problemau a chreu datrysiadau ar eich liwt eich hun. | FfG/C/G | M |
| **Cysylltiadau & Perthnasau** | Sgiliau rhyngbersonol rhagorol a'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol gyda staff a sefydliadau allanol, ar lafar ac yn ysgrifenedig. | FfG/C | H |
| | Gallu i ymuno ag amrywiaeth o dimau a gweithio'n effeithiol fel rhan ohonynt. | C | H |
| **Penderfyniadau/Argymhellion** | Gallu i adnabod dulliau o wella systemau er mwyn gwneud y mwyaf o'u heffeithiolrwydd a chyflwyno achos clir dros wneud hynny | FfG/C/G | H |
| | Gallu i wneud penderfyniadau o ran blaenoriaethu tasgau gwaith a therfynau amser | FfG/C | H |
| **Adnoddau** | Cyfrifoldeb dros ddiogelu data asesu digidol yr ysgol. | C | H |
| **Gofynion y Gwaith** | Gallu i ymateb yn effeithiol i ymyriadau rheolaidd ac i ddelio ag unrhyw flaenoriaethau sy'n gwrthdaro a allai godi. | FfG/C | H |
| **Gofynion Corfforol** | Lleolir y swydd hon yn yr ysgol yn bennaf ond gall fod angen rhywfaint o deithio i safleoedd eraill ar gyfer hyfforddiant neu gyfarfodydd. | FfG/C | H |
| | Gallu i ymdopi â defnyddio system gyfrifiadurol yn aml iawn. | FfG/C | M |

FfG – Ffurflen Gais C – Cyfweliad G – Geirda Gw - Gwiriad

